Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Cynllun Gweithredu: Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar: 13-03-2020

Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Carchardai EM a gynhaliwyd rhwng: 11 - 22 Tachwedd 2019

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar: 03 -03 -2020

**CYFLWYNIAD**

Mae Arolygaeth Carchardai EM (HMIP) ac Arolygaeth Gwasanaeth Prawf EM yng Nghymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy’n craffu ar y ffordd y trinnir carcharorion a throseddwyr ac ar amodau eu carchariad a’u goruchwyliaeth. Maent yn adrodd eu canfyddiadau ynglŷn â charchardai, sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs) a gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc ledled Cymru a Lloegr i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i’r adroddiad disgwylir i HMPPS / MoJ ddrafftio cynllun gweithredu atebol ac amserol yn ymateb i’r argymhellion. Mae’r cynllun gweithredu yn cadarnhau a gytunwyd â’r argymhellion ai peidio neu a chytunwyd â hwy’n rhannol (gweler y categorïau isod). Pan gytunwyd â’r argymhelliad neu pan gytunwyd ag ef yn rhannol, bydd y cynlluniau gweithredu’n darparu camau gweithredu penodol yn ymateb i’r argymhellion hyn. Mae’r camau gweithredu’n eglur, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol a nodir gweithredwr ac amserlen pob cam yn eglur. Anfonir cynlluniau gweithredu i HMIP ac fe’u cyhoeddir ar wefan Prison Finder HMPPS. At hynny byddir yn monitro cynnydd gweithrediad y cynlluniau gweithredu ac yn adrodd ar hynny.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylw ychwanegol** |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd yn llwyr â’r argymhelliad, gellir ei wireddu ac mae’n fforddiadwy | Dylai’r ymateb egluro’n glir sut y byddir yn gwireddu’r argymhelliad o fewn cyfyngiadau’r amserlen. Dylai camau gweithredu ddilyn egwyddorion SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig a Phennu Amser) cyn belled ag y bo modd. Dylai camau gweithredu fod yn ddigon penodol fel y gellir olrhain cynnydd. |
| Cytunwyd yn rhannol | Dim ond rhan o’r argymhelliad y cytunwyd ag ef, y gellir ei wireddu, sy’n fforddiadwy ac y byddir yn ei weithredu<br>Efallai fod hyn am na allwn weithredu’r argymhelliad yn ei gyfanrwydd am resymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd. | Rhaid i’r ymateb ddatgan yn glir pa ran o’r argymhelliad a weithredir ynghyd â chamau yn dilyn egwyddorion SMART sy’n ddigon penodol fel y gellir olrhain cynnydd.<br>Rhaid egluro pam na ellir cytuno’n llwyr â’r argymhelliad - rhaid i’r eglurhad nodi’n glir ai rhesymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu ynteu fforddiadwyedd sy’n cyfrif am hynny. |
| Ni chytunwyd | Ni chytunwyd â’r argymhelliad ac ni fyddir yn ei weithredu<br>Efallai fod hyn am resymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd. | Rhaid i’r ymateb ddatgan yn glir pan ddewiswyd yr opsiwn hwn.<br>**Rhaid** egluro pam na ellir cytuno â’r argymhelliad - rhaid i’r eglurhad nodi’n glir ai rhesymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu ynteu fforddiadwyedd sy’n gyfrifol am hynny. |

| 1. Rhif yr argymhelliad | 2. Argymhelliad | 3. Cytunwyd/ Cytunwyd yn rhannol/ Ni chytunwyd | 4. Ymateb Cam Gweithredu a Gymerwyd/ a Gynlluniwyd | 5. Gweithredwr Cyfrifol | 6. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **I HMPPS** | | | | |
| S43 | Pryder allweddol: Er gwaethaf yr ymdrechion i ddatrys y broblem, roedd yna oedi gyda chaniatáu i blant a oedd wedi'u dynodi fel rhai statws cyfyngedig posibl i wneud galwadau ffôn uniongyrchol yn ystod eu dyddiad cyntaf yn yr Uned.<br><br>**Argymhelliad Dylai HMPPS sicrhau bod pob plentyn yn Parc yn gallu gwneud galwadau ffôn uniongyrchol ar ei ddiwrnod cyntaf yn y ddalfa.** | Cytunwyd yn rhannol | Cytunwyd yn rhannol â'r argymhelliad hwn, oherwydd os bydd Plentyn neu Unigolyn Ifanc (CYP) yn cael ei ddynodi fel unigolyn statws cyfyngedig, ni allwn warantu y bydd yn cael gwneud galwadau ffôn uniongyrchol ar ei diwrnod cyntaf yn y ddalfa oherwydd oedi wrth geisio cael gafael ar ddogfennaeth ategol gan yr heddlu perthnasol. Mae'r ffactorau hyn tu hwnt i'n rheolaeth. | | |
| | | | Ni fydd pob CYP sy'n cael ei ddynodi fel unigolyn statws cyfyngedig yn cael gwneud galwadau ffôn uniongyrchol ar ei ddiwrnod cyntaf yn y ddalfa, yn amodol ar y gwiriadau arferol i ddiogelu'r cyhoedd. | HMPPS/YCS Cymru | Cwblhawyd |
| | | | Gydag unrhyw CYP sy'n cael ei ddynodi fel unigolyn statws cyfyngedig, mae Carchar Ei Mawrhydi Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc (HMYOI) yn dilyn y camau gweithredu canlynol:<br><br>• Glynu at yr holl gamau gweithredu gorfodol o fewn y Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI 09/2015), Adnabod, Categoreiddio'n Gychwynnol a Rheoli Troseddwyr/Plant Statws Cyfyngedig/ Categori A (Statws Posibl a Statws Dros Dro).<br>• Gofynnir am yr holl ddogfennaeth ategol gan yr heddlu perthnasol ar y diwrnod mae'r unigolyn yn cael ei adnabod i gynorthwyo â phennu a yw'r CYP dan statws cyfyngedig ai peidio. Cedwir cofnod o geisiadau o'r fath, i olrhain cynnydd. Unwaith y mae'r ddogfennaeth ategol yn dod i law, mae'n cael ei gyfeirio i staff yr Adran Categori A, a fydd yn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y Swyddog Gwybodaeth Heddlu yn parhau i geisio cael ymateb | HMPPS/YCS Cymru | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyflymach gan yr heddluoedd perthnasol i gael gafael ar y ddogfennaeth.<br>• Rhoddir gwybod i'r CYP na fydd yn cael gwneud galwadau ffôn uniongyrchol hyd nes bod yr holl wiriadau priodol wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, cysylltir â'r berthynas agosaf pan fydd y CYP yn cael ei dderbyn i'r carchar, a chysylltir â hwy yn ddyddiol wedi hynny hyd nes bod yr adran Categori A yn gwneud penderfyniad ynghylch statws y CYP. Cedwir cofnod o'r holl alwadau hyn, a bydd y CYP yn cael diweddariadau ar y cynnydd a wneir.<br><br>Rydym yn ceisio sicrhau proses gyflymach ar gyfer cael dogfennaeth ategol o fewn 24 awr o'r adeg mae unigolyn yn cael ei dderbyn i Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc trwy drefniant partneriaeth cyfiawnder troseddol newydd. | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>HMPPS/YCS | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Mehefin 2020 |
| | **I'r Cyfarwyddwr** | | | | |
| S44 | Pryder allweddol: Ar adeg yr Archwiliad, nid oed unrhyw blant o grwpiau du, Asiaidd, neu leiafrifoedd ethnig ar y lefel Platinum (sef lefel uchaf y cynllun gwobrau a breintiau a enillir). Yn ein cyfweliadau preifat, adroddodd rhai o'r plant eu bod wedi profi a/neu wedi bod yn dyst i driniaeth wahaniaethol gan staff tuag at blant du a phlant o leiafrifoedd ethnig yng nghyswllt gwobrau a rheoli ymddygiad. Nid oedd cofnodion y carchar am y cynllun gwobrau a breintiau a enillir (IEP) yn cynnwys monitro ethnigrwydd a lefelau IEP ac roedd y rheolwyr yn methu esbonio'r pryderon hyn.<br><br>**Argymhelliad**: **Dylid craffu data yn drylwyr i sicrhau nad yw prosesau rheoli ymddygiad yn wahaniaethol.** | Cytunwyd | Bydd data nawr yn cael ei gasglu ar bob lefel o'r Fframwaith Polisi Gwobrau. Lle bo achosion o arfer gwahaniaethol yn cael eu hadnabod o fewn lefelau gwahanol y fframwaith, ymchwilir i'r achosion hyn a bydd unrhyw gamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Bydd aelodau uwch o staff a phawb sy'n rhan o'r broses yn adolygu'r crynodeb sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar leihau rhagfarnau gan y tîm ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'i rhoi ar waith i sicrhau bod digon yn cael ei wneud i leihau rhagfarnau yng nghyswllt penderfyniadau a wneir yng nghyswllt Gwobrau. Mae'r data hwn ac unrhyw broblemau sydd wedi'u hadnabod yn cael eu trafod yn y cyfarfod diogelu misol, sydd yn ei dro yn bwydo i mewn i'r cyfarfod cydraddoldeb (lle bo'n bosibl, bydd y rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn yn cynrychioli'r gymuned sy'n cael ei thrafod).<br><br>Mae Fforwm Cydraddoldeb misol ar gyfer yr Uned Bobl Ifanc wedi cael ei sefydlu, sy'n ychwanegol i fforwm misol y gymuned fyfyrwyr, lle gellir codi unrhyw bryderon ynghylch gwahaniaethu. Bydd adborth a diweddariadau yn cael eu rhannu â'r CYP yn y cyfarfodydd hyn hefyd. | Cyfarwyddwr<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr | Cwblhawyd<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| S45 | Pryder allweddol: Nid oedd y gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn darparu amrywiaeth briodol o asesiadau, triniaethau ac ymyriadau i'r plant yn Parc. Nid oedd ymyriadau yn seiliedig ar ffactorau seicolegol yn cael eu darparu mwyach, nid oedd therapydd iaith a lleferydd ar gael ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o therapïau siarad strwythuredig er bod yna alw amlwg am y rhain o fewn y boblogaeth.<br><br>**Argymhelliad: Dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc ddarparu amrywiaeth briodol o asesiadau, triniaethau ac ymyriadau i blant yn unol â'r safonau cenedlaethol.** | Ni chytunwyd | Ni chytunwyd â'r argymhelliad hwn oherwydd ei fod tu hwnt i reolaeth HMYOI Parc. Nid oes gan y Cyfarwyddwr unrhyw reolaeth na chyfrifoldeb ariannol dros y tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), ac felly nid yw'n gallu gorfodi'r argymhelliad.<br><br>Fodd bynnag, bydd HMYOI Parc yn parhau i gael cyfarfodydd gyda CAMHS, i ddatblygu'r cytundeb lefel gwasanaeth (SLA) a gytunwyd arno, i sicrhau bod y gwasanaeth gorau bosibl yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar y cyfyngiadau ariannol cyfredol yng Nghymru. Bydd yr SLA cyfredol yn cael ei adolygu ym mis Mehefin 2020.<br><br>Rhagwelir y bydd y bwrdd partneriaeth yn cael ei ailgyflwyno, ond ar hyn o bryd nid yw dyddiad wedi'i bennu, ond pan fydd yn ailddechrau bydd unrhyw broblemau a adnabyddir yn cael eu codi yn y cyfarfod hwn. Yn y cyfamser bydd unrhyw broblemau yn cael eu codi trwy'r cyfarfodydd chwarterol gyda'r awdurdod iechyd lleol.<br><br>Bydd HMPPS/YCS Cymru yn parhau i gysylltu â GIG Cymru ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael ac y gellir eu darparu i HMYOI Parc. Mae diffyg darpariaeth iaith a lleferydd eisoes wedi'i adnabod, bydd y pwynt hwn yn cael ei godi trwy'r trafodaethau hyn. | Cyfarwyddwr / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | |
| S46 | Pryder allweddol: Mae'r safonau rheoli a goruchwylio strategol ar gyfer gwaith adsefydlu wedi llithro ers yr archwiliad diwethaf. Nid oedd pob un o'r cyfarfodydd ailsefydlu wedi cael eu cynnal fel y'u cynlluniwyd, ac roedd y presenoldeb yn rhai o'r cyfarfodydd yn isel. Roedd rhai gweithwyr achos yn ansicr o ran gweithdrefnau mewnol ar gyfer cyfeirio materion yn uwch. Nid oedd gweithwyr achos yn cael eu goruchwylio, ac nid oedd asesiadau sicrhau ansawdd wastad yn cael eu gwneud gan uwch reolwr.<br><br>**Argymhelliad: Dylai arweinwyr a rheolwyr oruchwylio'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith adsefydlu yn effeithiol, i sicrhau bod asesiadau yn gadarn, bod anghenion plant yn cael eu bodloni a** | Cytunwyd | Mae'r strwythur rheoli ar gyfer Diogelu ac Adsefydlu wedi cael ei adolygu ac mae rheolwr newydd wedi'i benodi a fydd yn rheoli a goruchwylio'r swyddogaeth adsefydlu yn effeithiol ac yn well. Bydd hyn yn sicrhau bod asesiadau CYP yn gadarn, yn bodloni anghenion ac yn sicrhau llwybrau clir ar gyfer cyfeirio pryderon yn uwch.<br><br>Bydd y Fframwaith Cyfarfodydd Adsefydlu yn cael ei ailgyflwyno a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal bob deufis. Bydd y cyfarfod yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol sydd wedi'u hadnabod. Bydd cylch gorchwyl y cyfarfodydd yn cael ei adolygu a'u hailgyhoeddi. Defnyddir y cyfarfod hwn i ddatblygu argymhellion a adnabyddir o fewn y dadansoddiad anghenion cyfredol. | Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr | Ebrill 2020<br><br>Mai 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **bod yna lwybrau clir ar gyfer cyfeirio pryderon yn uwch.** | | | | |
| | **Argymhellion Cyffredinol** | | | | |
| | **I'r Cyfarwyddwr** | | | | |
| 1.17 | Ni ddylid plant ar adegau y gellir eu rhagweld. | Cytunwyd yn rhannol | Cytunwyd yn rhannol â'r argymhelliad hwn. Mae'n anodd iawn peri ei bod yn anos rhagweld pa mor aml y gwneir arsylwadau pan arsylwir bechgyn bum gwaith yr awr. Dim ond pan fydd y risg o hunan niweidio ar ei uchaf y byddir yn arsylwi mor aml. Rhaid cynnal arsylwadau cyson a di-fwlch i leihau'r amser lle gallai bachgen ei niweidio ei hun heb i rywun ei weld, a gall hynny olygu mai dim ond ychydig funudau fydd rhwng arsylwadau. Pennir amlder yr arsylwadau yn seiliedig ar y risgiau a adnabyddir yng nghyswllt yr unigolyn. Mae'r rhain yn cael eu trafod yn yr adolygiadau amlddisgyblaethol ac fe'u cofnodir yn y map gofal. Cynhelir gwiriadau sicrhau ansawdd ar yr holl ddogfennau Asesu, Gofal yn y Carchar a Gwaith Tîm (ACCT) lle bo amlder arsylwadau yn cael eu monitro. | Cyfarwyddwr | Mai 2020 |
| 1.18 | Ni ddylai monitro trwy deledu cylch cyfyng (CCTV) gymryd lle rhyngweithio ystyrlon rhwng pobl ac arsylwadau a wneir gan bobl. | Cytunwyd | Mae pob ACCT yn destun asesiad risg amlddisgyblaethol sy'n bodloni anghenion unigol y CYP orau. Bydd yn cael ei gofnodi yn y cynllun gofal. Defnyddir CCTV ar gyfer arsylwadau manwl ychwanegol, ac ni fyddant yn cael eu defnyddio yn lle cynnal gwiriadau ystyrlon sy'n cael eu hadnabod yn yr ACCT. | Cyfarwyddwr | Cwblhawyd |
| 1.36 | Dylai bob plentyn gael cyfle i geisio eiriolaeth mewn da bryd cyn dyfarniad. | Cytunwyd | Mae'r eiriolwr o Barnardo's yn cael ei gyfarwyddo'n ddyddiol am unrhyw ddyfarniadau sydd wedi'u cynllunio, am y cyhuddiadau a roddwyd yn erbyn y CYP, a dyddiad y gwrandawiad.<br><br>Rhoddir gwybod i'r CYP am yr eiriolaeth sydd ar gael ar gyfer dyfarniadau pan gyflwynir yr hysbysiad yn eu galw ar gyfer dyfarniad. Gellir defnyddio'r ffonau yn y celloedd i gysylltu â Barnardo's yn uniongyrchol i geisio eiriolaeth dros y ffôn os nad yw cynrychiolydd ar gael yn bersonol. | Cyfarwyddwr | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y dyfarnwr yn gofyn i'r CYP os yr hoffent gael eiriolwr yn bresennol. Os bydd y CYP yn teimlo bod angen rhagor o amser i siarad gydag eiriolwr, bydd y dyfarniad yn cael ei ohirio, a bydd hyn yn cael ei gofnodi yng nghofnod y gwrandawiad dyfarnu. | | |
| 2.54 | Dylai'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc ddarparu cofnodion clinigol o ansawdd da ar gyfer un cofnod iechyd cyfredol ar gyfer y plant yn eu gofal. | Ni chytunwyd | Ni chytunwyd â'r argymhelliad hwn oherwydd ei fod tu hwnt i reolaeth HMYOI Parc. Nid oes gan y Cyfarwyddwr unrhyw reolaeth na chyfrifoldeb ariannol dros y tîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), ac felli nid yw'n gallu gorfodi'r argymhelliad.<br>Mae'r tîm CAMHS yn defnyddio system adrodd sy'n wahanol i SystmOne (sef system weinyddol ar gyfer gwybodaeth am gleifion) a ddefnyddir gan y staff clinigol yn y carchar. Mae trafodaethau wrthi'n cael eu cynnal i hyrwyddo defnyddio un system gydlynol fel y gellir cadw un cofnod iechyd cyfredol ar gyfer y plant yn ein gofal. Bydd HMYOI Parc yn darparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i staff CAMHS ar sut i ddefnyddio SystmOne os cytunir i ddefnyddio un system.<br><br>Bydd y rheolwr CAMHS yn monitro ansawdd y cofnodion clinigol, a lle bo problemau'n codi, byddir yn mynd i'r afael â hwy yn ôl y gofyn. Darperir sicrwydd i'r Cyfarwyddwr drwy'r bwrdd partneriaeth pan fydd wedi'i ailgyflwyno, yn ogystal ag yn y cyfarfodydd chwarterol gyda'r awdurdod iechyd.<br><br>Rhagwelir y bydd y bwrdd partneriaeth yn cael ei ailgyflwyno, ond ar hyn o bryd nid yw dyddiad wedi'i bennu, ond pan fydd yn ailddechrau bydd unrhyw broblemau a adnabyddir yng nghyswllt ansawdd cofnodion clinigol yn cael eu codi yn y cyfarfod hwn. Yn y cyfamser bydd unrhyw broblemau yn cael eu codi trwy'r cyfarfodydd chwarterol gyda'r awdurdod iechyd lleol. | Cyfarwyddwr / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | |
| 2.55 | Dylai arferion llywodraethu gwybodaeth gyd-fynd â safonau proffesiynol. | Cytunwyd | Mae'r problemau a godwyd ar adeg yr archwiliad wedi'u datrys, a glynir at yr holl Arferion Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r rheolwr CAMHS yn monitro'r sefyllfa yn barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau proffesiynol.<br><br>Mae'r tîm CAMHS yn defnyddio system adrodd sy'n wahanol i SystmOne (sef system weinyddol ar gyfer gwybodaeth am gleifion) a ddefnyddir gan y staff clinigol yn y carchar. Mae trafodaethau wrthi'n cael eu cynnal i annog y partner i | Cyfarwyddwr / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddefnyddio un system gydlynol fel y gellir cadw un cofnod iechyd cyfredol ar gyfer y plant yn ein gofal. Bydd HMYOI Parc yn darparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i staff CAMHS ar sut i ddefnyddio SystmOne os cytunir i ddefnyddio un system.<br><br>Rhagwelir y bydd y bwrdd partneriaeth yn cael ei ailgyflwyno, ond ar hyn o bryd nid yw dyddiad wedi'i bennu, ond pan fydd yn ailddechrau bydd unrhyw broblemau a adnabyddir yng nghyswllt ansawdd cofnodion clinigol ac arferion llywodraethu yn cael eu codi yn y cyfarfod hwn. Yn y cyfamser bydd unrhyw broblemau yn cael eu codi trwy'r cyfarfodydd chwarterol gyda'r awdurdod iechyd lleol. | | |
| 2.62 | Dylai'r gwasanaethau integredig camddefnyddio sylweddau ddarparu asesiadau, ymyriadau a chynlluniau rhyddhau digonol i wella canlyniadau i blant. | Cytunwyd | Mae darpariaeth gyfredol y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau (SMS) wedi cael ei hadolygu, gan ystyried y dadansoddiad anghenion diweddar i wella ein darpariaeth gyfredol. Bydd hyn yn sicrhau bod asesiadau, ymyriadau a chynlluniau rhyddhau priodol yn cael eu datblygu ar gyfer plant yn y ddalfa.<br><br>Bydd HMYOI Parc yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i'r Tîm Anghenion, Ymgysylltu a Lles (NEWT), gan wella eu sgiliau i sicrhau bod asesiadau, ymyriadau a chynlluniau rhyddhau priodol yn cael eu datblygu a bod yna chysondeb o ran darpariaeth y gwasanaeth SMS yn ystod cyfnodau pan nad yw'r staff yn gweithredu. | Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr | Cwblhawyd<br><br>Mehefin 2020 |
| 3.12 | Dylid ehangu ar y cwricwlwm sgiliau galwedigaethol fel bod gan plant mwy o gyfleoedd i fynd ar gwrs galwedigaethol neu gael eu cyflogi pan fyddant yn cael eu rhyddhau. | Cytunwyd yn rhannol | Cytunwyd yn rhannol â'r argymhelliad hwn, gan fod cyfyngiadau ar y cyllid/adnoddau sydd ar gael o fewn y contract cyfredol sy'n golygu na ellir ehangu ar ein rhaglen sgiliau galwedigaethol.<br><br>Fodd bynnag, byddwn yn datblygu cynnig ariannu i ehangu ar y cwricwlwm galwedigaethol a byddwn yn ei gyflwyno i'r YCS erbyn mis Mawrth 2020. Rydym wedi cael gwybod y disgwylir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y cynnig hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2020. Bydd unrhyw gynnydd gyda'r argymhelliad hwn yn ddibynnol ar y trefniadau ariannu. | Cyfarwyddwr | Mehefin 2020 |
| 3.13 | Dylai fod darpariaeth ar gyfer plant sy'n siarad ieithoedd eraill fel eu bod yn gallu | Cytunwyd | Bydd athro/athrawes benodol ar gyfer CYP yn cael ei adnabod/hadnabod a'i hyfforddi i ddarparu gwersi Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn ôl y gofyn, i gefnogi | Cyfarwyddwr | Medi 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | datblygu eu sgiliau llafar yn Saesneg at lefel ymarferol. | | plant sy'n siarad ieithoedd eraill i ddatblygu eu sgiliau llafar Saesneg.<br><br>Cynhelir asesiadau cychwynnol i adnabod CYP sydd angen y ddarpariaeth hon, a bydd asesiad pob plentyn yn cael ei gynnwys yn ei Gynllun Dysgu Unigol. | | |
| 3.17 | Dylai rheolwyr sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at adnoddau dysgu rhith dibynadwy. | Cytunwyd | Mae'r Campws Rhith (VC) wedi cael ei osod. Mae dibynadwyedd y system wedi gwella ac mae'r bechgyn i gyd yn gallu cael mynediad iddi fel rhan o'u cwricwlwm. | Cyfarwyddwr | Cwblhawyd |
| 4.15 | Dylai fod plant ar remand sy'n cael eu trosglwyddo i garchardai i oedolion gael yr holl wybodaeth am y sefydliad maent yn trosglwyddo iddo. | Cytunwyd | Fel rhan o'r prosesau pontio, bydd yr holl bobl ifanc sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n trosglwyddo i garchar i oedolion fel unigolyn ifanc ar remand neu unigolyn ifanc sydd wedi'i gael yn euog ac wedi cael dedfryd, yn cael yr wybodaeth berthnasol am y carchar dan sylw. | Cyfarwyddwr | Cwblhawyd |
| 4.27 | Dylai fod rheolwyr yn goruchwylio pob achos sy'n cynnwys risg uchel o niwed i sicrhau bod camau gweithredu i liniaru'r risg y gall plant ei pheri wedi'u cwblhau cyn iddynt gael eu rhyddhau. | Cytunwyd | Bydd proses sicrhau ansawdd diwygiedig ar gyfer rheoli achosion yn cael ei chyflwyno. Bydd y broses hon yn canolbwyntio ar adnabod ac asesu'r risg i niwed, i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei hystyried, ei hadolygu a'i hymgorffori yn y cyfnod cynllunio ar gyfer adsefydlu. Bydd rhaid sicrhau hefyd bod rheolwyr yn goruchwylio'r broses, i lywio sut bydd CYP yn cael eu rheoli yn yr uned, yn ystod y broses adsefydlu ac yn y gwaith. Bydd y Rheolwr Diogelu yn sicrhau bod yr holl weithwyr achos yn ymwybodol o bolisi diogelu'r cyhoedd y sefydliad.<br><br>Bydd yr holl achosion o CYP sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n gysylltiedig â risg uchel o niwed yn cael eu hadolygu yn y cyfarfod diogelu misol i sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael cymryd i liniaru'r risg cyn rhyddhau'r unigolion hynny. | Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr | Mai 2020<br><br>Mai 2020 |
| 4.41 | Dylai'r carchar sicrhau bod plant yn cael eu neilltuo i ymyriadau yn seiliedig ar eu hymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu a'u dyddiad rhyddhau. | Cytunwyd | Bydd proses sicrhau ansawdd diwygiedig ar gyfer rheoli achosion yn cael ei chyflwyno. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ymyriadau yn canolbwyntio ar yr ymddygiad sy'n gysylltiedig â throseddu a'u trefnu fel eu bod yn cyd-fynd â'r gwaith cynllunio ar gyfer dyddiad rhyddhau'r unigolyn dan sylw.<br><br>Pan adnabyddir nad oes digon o amser i gwblhau proses ymyrryd yn y ddalfa, yna bydd y Tîm YOT perthnasol yn cael ei hysbysu cyn gynted ag y bo modd. | Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr | Mai 2020<br><br>Mai 2020 |

| Argymhellion | |
|---|---|
| Cytunwyd | 11 |
| Cytunwyd yn rhannol | 3 |
| Ni chytunwyd | 2 |
| **Cyfanswm** | **16** |